| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **12 Hydref 2009** |
| **TEITL :** | **Cais am ollyngiad gan y Cynghorydd John Pughe Roberts** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Atodaf, fel **Atodiad 1**, gopi o ffurflen a gyflwynwyd gan y Cynghorydd John Pughe Roberts, sy'n aelod etholedig o Gyngor Gwynedd yn cynrychioli Corris/Mawddwy.

2. Mae'r Cynghorydd yn gofyn am ollyngiad i'w alluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau yn ymwneud â chynllun trefniadaeth ysgolion y Cyngor. Byddai hyn yn berthnasol pan fydd y trafodaethau yn effeithio ar Ysgol Dinas Mawddwy lle mae plant ei chwaer blant yn ddisgyblion.

3. Ym mis Mehefin 2008, penderfynodd y Pwyllgor ar y canllawiau canlynol ar gyfer ystyried ceisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion:

   *"Cytunwyd y byddai gosod canllawiau i'w dilyn wrth ystyried ceisiadau yn gysylltiedig â'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion o gymorth i ystyried pob cais ar ei haeddiant ac i fod yn gyson wrth wneud penderfyniadau.*

   *Yn sgil hyn, penderfynwyd y byddai gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiadau rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau."*

4. Atodir, fel **Atodiad 2,** gopi o lythyr anfonwyd at holl aelodau'r cyngor yn ddiweddar, sydd, ynghyd â'r cofnodion atodwyd iddo, yn rhoi'r cefndir i'r mater yma.

5. Atodir, er gwybodaeth fel **Atodiad 3**, baragraff 2 o'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001), sy'n darparu'r sefyllfaoedd lle gall y Pwyllgor ganiatáu gollyngiad.

**Argymhelliad**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd John Pughe Roberts am ollyngiad.